Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Gŵyr Abertawe
**Heol Tycoch**
**Abertawe**
**SA2 9EB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2018**

## Cyd-destun

Coleg addysg bellach yw Coleg Gŵyr Abertawe, sydd â thros 4,000 o ddysgwyr amser llawn ac 8,000 o ddysgwyr rhan-amser o bob cwr o Abertawe a siroedd cyfagos. Mae'r coleg yn cyflogi tua 1,000 o staff.

Mae'n gweithredu o chwe lleoliad ar draws Dinas a Sir Abertawe. Mae'r prif gampysau yn Nhycoch, lle cyflwynir ystod o ddarpariaeth alwedigaethol a darpariaeth arall; a Gorseinon, lle cyflwynir darpariaeth Safon Uwch. Cyflwynir y celfyddydau creadigol galwedigaethol ar safle Llwyn y Bryn.

Abertawe yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru, ac mae ganddi economi gymysg, gan gynnwys sectorau peirianneg, manwerthu a lletygarwch, iechyd, hamdden, twristiaeth a phrifysgol. Daw tua chwarter o ddysgwyr y coleg o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, fel y'u nodweddir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer colegau yng Nghymru.

Mae'r coleg yn cynnig cwricwlwm o lefel cyn-mynediad i lefel addysg uwch. Hwn yw'r darparwr mwyaf o ran cyrsiau Safon Uwch yn Abertawe sydd ag amrywiaeth o ysgolion â dosbarthiadau chwech, a hebddynt.

Bu tân mawr yn y coleg ar ei gampws yn Nhycoch yn 2016. Roedd gwaith adeiladu wedi'i gynllunio, yn ogystal ag adnewyddu adeiladau a ddifrodwyd yn y tân, yn digwydd yn ystod yr arolygiad.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn dda oherwydd:

- Cwblhaodd dysgwyr eu prif gymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo yn dangos tuedd ar i fyny dros y cyfnod o dair blynedd.
- Mae llawer o ddysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus yn symud yn eu blaenau i ddilyn cyrsiau lefel uwch yn y coleg, i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.
- Mewn rhaglenni galwedigaethol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau ac mae mwyafrif ohonynt yn cyflawni graddau cryf ar y cyfan. Mae eu medrau a'u cymwyseddau technegol yn datblygu'n dda.
- Mewn cyrsiau Safon Uwch, mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Ar draws mwyafrif y cyrsiau Safon Uwch ac UG, mae dysgwyr yn cyflawni graddau cryf, ac mewn rhai cyrsiau, mae dysgwyr yn cyflawni graddau uchel iawn mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol.
- Mae'r coleg yn gweithio'n dda i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac mae ganddo ystod briodol o ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth Safon Uwch yn helaeth, gan gynnwys pynciau nad ydynt ar gael yn eang ledled Cymru.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu cyrsiau a'u gwersi'n dda ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer dysgwyr. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu a dysgu ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel sy'n diddori, cymell a difyrru dysgwyr.
- Mae'r coleg yn darparu cymorth hynod effeithiol ac ymatebol ar gyfer ei ddysgwyr. Mae staff cymorth ac athrawon yn hyrwyddo lles dysgwyr yn dda iawn. Mae dysgwyr mwy abl yn elwa ar ystod eang iawn o weithgareddau gwerthfawr, gan gynnwys hyfforddiant personol, ymweliadau â sefydliadau allanol a chyfoethogi academaidd ehangach.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfarwyddyd clir i staff.
- Mae gan y coleg gynllun strategol clir a ffocysedig. Mae cynllunio yn ystyried datblygiadau annisgwyl yn dda ac mae'n ddigon hyblyg i alluogi rhoi cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith.
- Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n dda am flaenoriaethau'r coleg ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at herio arweinwyr a rheolwyr.
- Mae gan y coleg gylch rheoli ansawdd priodol, sy'n sicrhau bod staff a dysgwyr

yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

- Mae gan y coleg bartneriaethau cryf iawn ag ystod eang o gyflogwyr lleol a rhanbarthol, yr awdurdod lleol, colegau eraill a phrifysgolion. Mae hyn yn cynnig manteision i ddysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd i gymhwyso eu medrau, ymgymryd ag addysg ddefnyddiol yn gysylltiedig â gwaith ac elwa ar addysg bellach ac addysg uwch.
- Mae'r coleg yn defnyddio ymagwedd ddarbodus at gynllunio ariannol a chynllunio ystadau, ac mae llywodraethwyr yn craffu'n fanwl ar gyllidebau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cyflawni'r safonau a'r graddau uchaf posibl

A2 Gwella'r graddau y mae dysgwyr yn ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol trwy eu rhaglenni galwedigaethol ac academaidd

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gynnal a datblygu'r Gymraeg fel medr cyflogadwyedd a medr bywyd

A4 Gwella strategaethau addysgu i sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn cael eu herio'n ddigonol mewn gwersi

A5 Gwneud yn siŵr fod yr holl brosesau hunanarfarnu yn drylwyr, yn arfarnol ac yn gywir ar draws holl feysydd y coleg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, i ddangos yn glir sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro o bryd i'w gilydd gan arolygydd cyswllt Estyn y coleg. Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn 2016-2017, cwblhaodd dysgwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau sy'n cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol. Cwblhaodd dysgwyr eu prif gymwysterau'n llwyddiannus ar raddau ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar draws dangosyddion eraill a mathau o gymhwyster, mae dysgwyr yn llwyddo ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, neu'n uwch, ar y cyfan.

At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo yn dangos tuedd ar i fyny dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014 a 2017. Mae hyn yn nodedig mewn cymwysterau galwedigaethol, sydd wedi gwella o gyfraddau llwyddo sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol i fod yn gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfraddau llwyddo mwyafrif y meysydd dysgu'r un fath â, neu uwchlaw'r, cyfartaleddau cenedlaethol, ac yn dangos tueddiadau sy'n gwella. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo rhai meysydd dysgu ar draws y darparwr yn parhau i fod islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol neu'n dangos tueddiadau o ddirywiad.

Mae dysgwyr o wahanol grwpiau ethnig, dysgwyr sy'n wrywod a benywod, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr ag anableddau yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus yn unol â pherfformiad cyffredinol y coleg. Fodd bynnag, llwyddodd dysgwyr o ardaloedd mwy difreintiedig ar gyfraddau ychydig yn is na chyfartaledd y coleg a'r cyfartaleddau cenedlaethol cyfatebol ar gyfer eu grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus yn symud ymlaen i ddilyn cyrsiau lefel uwch yn y coleg, i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.

Yn eu rhaglenni galwedigaethol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau, ac mae mwyafrif ohonynt yn cyflawni graddau cryf ar y cyfan. Mae eu medrau a'u cymwyseddau technegol yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u hathrawon a'u cyd-fyfyrwyr ac yn cyfrannu'n dda at ddosbarthiadau a sesiynau gweithdy.

Mewn cyrsiau Safon Uwch, mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Ar draws mwyafrif o gyrsiau Safon Uwch ac UG, mae dysgwyr yn cyflawni graddau cryf, ac mewn rhai cyrsiau, mae dysgwyr yn cyflawni graddau uchel iawn mewn perthynas â'u dysgu blaenorol. Fodd bynnag, mewn rhai cyrsiau, mae dysgwyr yn cyflawni graddau is nag y gellid ei ddisgwyl o'u cyrhaeddiad blaenorol.

Yn eu dosbarthiadau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn effeithiol, a gall llawer ohonynt gymhwyso eu dysgu i gyd-destunau newydd yn dda. Mae rhai dysgwyr yn ennill gwybodaeth werthfawr am ymchwil ehangach. Er enghraifft, mewn gwersi seicoleg, mae dysgwyr yn darganfod ac yn arfarnu astudiaethau achos cyhoeddedig yn annibynnol. Mae llawer o ddysgwyr yn

mynegi eu hunain yn dda fel rhan o sgyrsiau mewn gwersi. Maent yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc a therminoleg dechnegol yn gywir ac yn hyderus wrth esbonio eu syniadau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw rhai dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at wersi ac maent yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig priodol ar ddechrau eu cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi eu cryfderau a'u gwendidau cyffredinol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn deall yr angen i wella o'u lefelau cychwynnol. Mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau hyn yn briodol i osod targedau bras ar gyfer gwella ac mae llawer ohonynt yn monitro'r rhain yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir yn rhai digon tymor byr neu fanwl gywir. O ganlyniad, ni all dysgwyr ddisgrifio eu meysydd penodol i'w datblygu yn ddigon da.

Mae mwyafrif y dysgwyr cyn-TGAU a TGAU yn ailsefyll mathemateg ac mae dosbarthiadau Saesneg yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, i leiafrif o'r dysgwyr hyn, mae cynnydd yn araf.

Yn eu dosbarthiadau galwedigaethol a Safon Uwch, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n briodol at ystod addas o ddibenion. Yn benodol, mae'r rheiny sy'n gweithio ar lefelau uwch yn dewis geiriau'n gywir ac yn defnyddio termau sy'n benodol i bwnc yn dda yn eu hysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau y maent yn eu darllen o ystod o ffynonellau, er enghraifft o ganllawiau neu ymchwil. Mae llawer o ddysgwyr lefel 3 yn cyfosod gwybodaeth yn effeithiol o ystod o ffynonellau. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn crynhoi nac yn cyfosod yn ddigon da.

Mae llawer o ddysgwyr yn sillafu'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu'n hyderus yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dewis y geiriau anghywir neu nid ydynt yn ystyried eu cynulleidfa'n ddigon da, neu mae diffyg strwythur i'w hysgrifennu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o dasgau rhifedd mewn sesiynau medrau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio cyfrifianellau'n briodol i ganfod cyfrifiadau syml ar gyfer problemau go iawn. Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu rhifedd yn dda mewn cyd-destunau sy'n digwydd yn naturiol, er enghraifft trwy ddefnyddio fformiwlâu i gyfrifo cyfartaleddau neu ddadansoddi data gan ddefnyddio ystadegau'r llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar draws pob rhaglen yn datblygu eu rhifedd yn ddigon da mewn cyd-destun. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar gyfrifianellau i wneud cyfrifiadau sylfaenol.

Mewn rhai meysydd dysgu, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio ystod addas o offer digidol i gwblhau tasgau ar eu prif raglenni astudio. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw digon o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn dda.

Mae tua 340 o ddysgwyr amser llawn yn y coleg yn siarad Cymraeg ac mae lleiafrif o'r rhain yn cwblhau asesiadau cychwynnol gan ddefnyddio WEST i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn Gymraeg. Mewn ychydig iawn o feysydd

dysgu, mae dysgwyr ag ystod o alluoedd ieithyddol yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn datblygu medrau Cymraeg llafar defnyddiol, sy'n fuddiol iddynt yn eu gweithgarwch yn gysylltiedig â gwaith. Mewn cyrsiau Safon Uwch, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn mynychu grwpiau tiwtorial cyfrwng Cymraeg. Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n galluogi iddynt ymarfer siarad Cymraeg, ac maent yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd, gan gynnwys ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, ar draws y meysydd dysgu, nid oes digon o ddysgwyr yn rhoi cynnig ar unedau astudio neu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n cynnal a gwella eu medrau Cymraeg trwy eu rhaglenni galwedigaethol.

**Lles: Da**

Mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynychu eu gwersi'n dda ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan athrawon a staff ehangach y coleg. Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth werth chweil o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi eu cymell i gyflawni yn eu hastudiaethau. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mewn ardaloedd cymunol. Dangosant barch at eu hathrawon a'u cyfoedion. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd dysgu, mae rhai dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer eu dosbarthiadau, sy'n arwain at oedi wrth ddechrau gwersi.

Gall dysgwyr ddylanwadu ar waith y coleg yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cynnig gwelliannau awgrymedig ar fforwm electronig i fyfyrwyr, ac mae rheolwyr y coleg yn gweithredu yn unol â hynny. Mae gwelliannau diweddar i isadeiledd TG a chyfleusterau chwaraeon y coleg wedi cael eu dylanwadu gan ddysgwyr yn y modd hwn. Mae dau ddysgwr yn gweithredu fel llywodraethwyr myfyrwyr. Maent yn aelodau llawn o gorff llywodraethol y coleg, ac o'r herwydd, gallant helpu llywio gwaith y coleg ar y lefel uchaf.

Mae tua hanner y dysgwyr sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerthfawr. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil sy'n eu helpu i gael eu cynnwys yn eu cymunedau. Er enghraifft, mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn teithio o amgylch ysgolion cynradd lleol yn cynnal gweithdai gyda disgyblion.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyfoethogi ac academïau chwaraeon buddiol. Er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr medrau byw yn annibynnol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a dosbarthiadau ymarfer corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd yn eu blaenau i astudio ymhellach, gwaith neu brentisiaethau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn gweithio'n dda i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac mae ganddo ystod briodol o ddarpariaeth. Wrth gynllunio'r cwricwlwm, defnyddir gwybodaeth y farchnad lafur yn dda, ac mae cydweithio agos â darpariaeth dysgu yn y gwaith y coleg yn cynnig dilyniant clir ar draws llwybrau galwedigaethol ac

academaidd, o lefel mynediad i lefel 7 ac i gyflogaeth. Mae gan y coleg ddarpariaeth helaeth ar gyfer Safon Uwch, gan gynnwys pynciau nad ydynt ar gael yn eang ledled Cymru.

Mae'r coleg yn cynnal cronfa ddata o gyflogwyr lleol a'u hanghenion. Mae'n defnyddio'r gronfa ddata yn dda i helpu datblygu rhaglenni ac yn cynllunio'r cwricwlwm i fodloni anghenion busnesau yn yr ardal. Mae cysylltiadau sefydledig â chyflogwyr yn galluogi meysydd y cwricwlwm i drefnu lleoliadau gwaith neu brofiadau ystyrlon yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer llawer o ddysgwyr. Pan na fydd lleoliadau gwaith ar gael, caiff dysgwyr eu hannog i gymryd rhan mewn prosiectau ymglymiad cymunedol, er enghraifft cyfrannu at brosiect celf stryd.

Mae gan y coleg ddarpariaeth briodol ar gyfer ailsefyll arholiadau TGAU, sy'n galluogi dysgwyr nad ydynt wedi ennill cymwysterau TGAU, gradd A*-C mewn Saesneg neu fathemateg yn y gorffennol i wella'u graddau. Mae ganddo bolisi cymharol newydd ar fedrau, sy'n dechrau cael effaith ar ddatblygu medrau dysgwyr. Mae'r coleg yn cynnig darpariaeth briodol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.

Mae rhaglen 'Bridge' y coleg yn gweithio'n dda i ailennyn diddordeb dysgwyr ysgol a choleg sydd mewn perygl o beidio ag ymgymryd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH). Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ac mae mwyafrif ohonynt yn mynd ymlaen i lefel ddysgu bellach neu i gyflogaeth. Mae ffocws y coleg ar atal NACH wedi arwain yn ddiweddar at greu rhaglen cyngor a chymorth un i un ddynodedig. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y rhaglen hon.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth cyflwyno ac asesu Cymraeg ac mae hyrwyddwr dwyieithog Cymraeg y coleg wedi creu pecyn canllawiau defnyddiol i helpu staff i ddatblygu ac ymgorffori adnoddau Cymraeg yn eu haddysgu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes digon o ddysgwyr yn cynnal neu wella eu medrau Cymraeg trwy eu rhaglenni dysgu.

Mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac mae dysgwyr yn gweithio'n dda ar brosiectau sy'n archwilio hyn ymhellach. Er enghraifft, mae dysgwyr Safon Uwch wedi cymryd rhan mewn prosiect i gynorthwyo myfyrwyr yng Nghenia i gael addysg, gan gynnwys codi arian ar gyfer ysgol.

### Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol a thechnegol gyfoes a chryf. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu profiad a'u medrau diwydiannol yn dda i ddatblygu gwybodaeth ddamcaniaethol a chymhwysedd ymarferol dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu cyrsiau a'u gwersi'n dda ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer dysgwyr ar ddechrau pob sesiwn. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu a dysgu ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel sy'n diddori, cymell a difyrru dysgwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda dysgwyr sy'n meithrin dysgu ac yn galluogi'r rhan fwyaf o

ddysgwyr i wneud cynnydd da. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n effeithiol gyda staff technegol a staff cymorth i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae mwyafrif o athrawon yn gosod tasgau a gweithgareddau heriol sy'n herio dysgwyr o bob gallu ac yn datblygu eu dysgu ar gyflymdra priodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio holi estynedig neu strategaethau addysgu eraill, fel tasgau dilynol, yn ddigon da i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cyflawni'r deilliannau a'r graddau y maent yn abl i'w cyflawni.

Mae llawer o athrawon yn paratoi dysgwyr yn dda â'r medrau angenrheidiol a'r rhinweddau personol i'w galluogi i fynd yn eu blaenau i astudio ar gyrsiau lefel uwch neu gael swydd. Mewn dosbarthiadau penodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, mae mwyafrif o athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu a gwella eu medrau. Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau galwedigaethol, ychydig o athrawon yn unig sy'n cynllunio'n ddigon da i atgyfnerthu a chymhwyso'r medrau hyn, yng nghyd-destun prif gymwysterau academaidd a galwedigaethol dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol yn dda i gynllunio a gwella dysgu a chyrhaeddiad. Mae llawer ohonynt yn darparu adborth ysgrifenedig a llafar defnyddiol ar waith dysgwyr sy'n helpu dysgwyr i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith a chyflawni graddau uwch. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw adborth ysgrifenedig a llafar yn ddigon manwl gywir neu ddatblygiadol i arwain at ddeilliannau gwell.

Mae rhai athrawon yn dechrau arbrofi â'r defnydd o dechnoleg i ddarparu recordiadau llais defnyddiol o adborth llafar sy'n galluogi dysgwyr i fynd at adborth athro a'i adolygu y tu allan i'w gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn cadw cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau dysgwyr, er enghraifft wrth ddefnyddio llyfr marcio electronig. Maent yn darparu adroddiadau ar-lein neu ysgrifenedig defnyddiol ar gyfer dysgwyr, rhieni a gofalwyr ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu cyfleoedd gwerthfawr hefyd i fynychu nosweithiau cynnydd, sy'n galluogi rhieni a gofalwyr i drafod adroddiadau dysgwyr yn fanylach a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r coleg yn darparu cymorth hynod effeithiol ac ymatebol ar gyfer ei ddysgwyr.

Mae staff cymorth ac athrawon yn hyrwyddo lles eu dysgwyr yn dda iawn. Mae bron pob un o'r athrawon yn sensitif i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed. Pan fydd dysgwyr yn wynebu heriau sy'n cael effaith negyddol ar eu lles, mae staff cymorth yn darparu cymorth personoledig i helpu dysgwyr i reoli eu hamgylchiadau'n effeithiol.

Mae'r coleg wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cryf iawn gyda sefydliadau addysgol, elusennau a gwasanaethau cymorth cymdeithasol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynus i gynorthwyo dysgwyr unigol yn dda iawn. Er enghraifft, mae rhaglen sefydledig i gynorthwyo dysgwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn sicrhau safon uchel o ofal ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae'r coleg yn effeithiol iawn o ran nodi a datblygu ei ddysgwyr mwyaf abl. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar ystod eang iawn o weithgareddau gwerthfawr, gan gynnwys hyfforddiant personol, ymweliadau â sefydliadau allanol a chyfoethogi academaidd ehangach. Er enghraifft, mae'r coleg yn cynnal ystod eang o ddosbarthiadau meistr mewn pynciau arbenigol yn rheolaidd. Cyflwynir y rhain gan siaradwyr gwadd o brifysgolion ochr yn ochr ag athrawon y coleg. Maent yn archwilio testunau cyffrous ac yn meithrin yn fedrus frwdfrydedd dysgwyr mwy abl dros eu dewis pynciau. Mae dros 100 o ddysgwyr yn mynychu gweithgareddau o'r fath yn rheolaidd, ochr yn ochr â disgyblion o ysgolion cyfagos sy'n rhan o rwydwaith lleol Seren. Mae'r dysgwyr hyn wedi'u paratoi'n arbennig o dda i wneud cais am leoedd prifysgol lle mae mynediad yn hynod gystadleuol. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes diwydiant yn cyflwyno dosbarthiadau meistr gwerthfawr i ddysgwyr galwedigaethol hefyd.

Mae darpar ddysgwyr yn elwa ar gyngor cynhwysfawr a chlir gan staff cymorth a staff addysgu'r coleg. Mae'r coleg yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n ansicr ynglŷn â'u dewis llwybrau.

Mae'r coleg wedi cyflwyno systemau defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr. Gall dysgwyr ddefnyddio eu dyfeisiau symudol i fynd at eu cofnodion dysgu yn gyflym ac yn gyfleus ac olrhain eu cynnydd.

Mae ffocws defnyddiol ar helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd. Gydag arweiniad gan y coleg, mae tri dysgwr wedi llwyddo i sefydlu eu busnesau bach eu hunain.

Mae'r coleg yn hyrwyddo byw yn iach yn dda. Mae wedi cyflwyno dewis eang o opsiynau bwyd iach ar draws pob campws a sesiynau gweithgarwch corfforol sy'n darparu'n benodol ar gyfer dysgwyr llai gweithgar.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu, gan gynnwys ei ddyletswydd i amddiffyn pobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg wedi sefydlu ethos cadarnhaol a chynhwysol. Ceir rhaglen hyfforddi ddefnyddiol i sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth gadarn o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae pob un o'r staff newydd yn ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu, ac mae pob un o'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn y ddyletswydd 'Atal'.

Mae gan y coleg ystod o fentrau gwerth chweil i fynd i'r afael â stereoteipio o ran rhywedd yn y cyrsiau y mae'n eu darparu. Er enghraifft, mae'r coleg yn cynnal diwrnodau rhagflas ar gyfer 'merched yn unig' a chlybiau Sadwrn 'peirianneg i ferched' lle caiff merched gyfle i ymgymryd â gweithgareddau ar draws gwahanol agweddau ar beirianneg, gan gynnwys technoleg cerbydau, technoleg ddigidol a thechnoleg peirianneg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn niferoedd y merched sy'n ymgymryd â chyrsiau peirianneg dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae myfyrwyr rhyngwladol yn integreiddio'n dda ym mywyd y coleg ac yn cael cymorth buddiol, er enghraifft trwy ddarparu cymorth yn Saesneg a thrwy godi ymwybyddiaeth yn y coleg am eu diwylliant a'u cefndir nhw.

Mae ystafelloedd dosbarth, gweithdai a labordai ar draws campysau yn addas at eu diben, yn cynnwys adnoddau da ac yn hygyrch. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw rhai ystafelloedd cerdd yn cael eu hynysu'n ddigonol rhag sain yn arwain at darfu ar sesiynau mewn dosbarthiadau eraill.

Mae'r llyfrgell newydd yn Nhycoch yn fodern, yn eang ac yn cynnwys adnoddau da. Yn ddefnyddiol, mae'n cynnwys ardaloedd ar gyfer gweithio'n dawel ac astudio personol, ac ar gyfer trafodaethau grŵp yn ogystal. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleuster hwn ac yn cael cymorth gwerthfawr gan staff y llyfrgell i helpu â medrau astudio, ymchwil a chwblhau aseiniadau.

Mae canolfan Broadway yn darparu cyfleusterau gwallt a harddwch modern a deniadol. Mae buddsoddiad diweddar mewn sba newydd wedi cynyddu cyfleoedd, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau tystysgrif genedlaethol uwch a diploma cenedlaethol uwch.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn rhoi cyfarwyddyd clir i staff. Defnyddiant ystod eang o ddulliau, gan gynnwys negeseuon fideo, i gyfathrebu'n dda â rheolwyr eraill a gyda staff. Mae deoniaid yn cyfarfod â rheolwyr meysydd dysgu yn rheolaidd i'w briffio am ganlyniadau cyfarfodydd uwch reolwyr a datblygiadau strategol, a herio perfformiad a chynnydd y ddarpariaeth. Yn y cyfarfodydd hyn, maent yn darparu swyddogaeth hyfforddi a mentora werthfawr a buddiol.

Ar lefel maes dysgu, mae gan reolwyr a chydlynwyr rolau diffiniedig a llinellau adrodd clir. Mae rheolwyr yn gefnogol ac yn bobl hawdd mynd atynt, ac maent yn effeithiol wrth herio tanberfformio. Mae arweinwyr cyrsiau'n cymryd rhan yn briodol mewn cynllunio ac arfarnu'r cwricwlwm.

Mae gan y coleg gynllun strategol clir a ffocysedig. Cefnogir hyn gan gynlluniau blynyddol sy'n amlinellu targedau ac amcanion penodol. Caiff cynnydd tuag at yr amcanion hyn ei adolygu a'i fonitro'n rheolaidd. Mae'r coleg yn rhoi ystyriaeth dda i farchnadoedd newydd. Er enghraifft, mae wedi dechrau darparu dysgu yng Ngharchar EM, Abertawe. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i dueddiadau'r farchnad lafur a rhagolygon medrau i gynllunio darpariaeth, er enghraifft mewn perthynas â'r potensial i ddatblygu morlyn llanw. Mae cynllunio ariannol yn mentro'n bwyllog wrth fuddsoddi, gan gynorthwyo'r coleg i wneud cynnydd effeithiol tuag at ei nodau.

Mae cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda i ddatblygiadau annisgwyl ac mae'n ddigon hyblyg i allu rhoi cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith. Er enghraifft, ymatebodd arweinwyr a rheolwyr yn dda iawn i'r tân diweddar, a ddifrododd ran sylweddol o ystâd y coleg, gan ddinistrio ardaloedd addysgu ac adnoddau dysgu. Gweithredodd arweinwyr a rheolwyr yn benderfynol i ad-drefnu cyfleusterau, cydlynu gwaith

ailadeiladu, cyfathrebu â staff a'u cynorthwyo, a galluogi dysgwyr i ailafael yn eu hastudiaethau o fewn wythnos. Sicrhaodd y gweithredu prydlon hwn na chafodd y tân unrhyw effaith anffafriol ar gyfraddau llwyddo dysgwyr, lle bu gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol mewn cyrsiau iechyd a gofal, sef un o'r ardaloedd a effeithiwyd yn y ffordd fwyaf difrifol.

Ceir systemau priodol i ddelio â chwynion, olrhain eu canlyniadau a chofnodi'n glir sut ymatebodd y coleg. Mae'r coleg yn cyflwyno adroddiadau addysgiadol ar ganlyniadau cwynion i fwrdd y llywodraethwyr bob blwyddyn.

Mae bwrdd y llywodraethwyr yn cynnwys ystod eang o arbenigedd strategol. Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n dda am flaenoriaethau'r coleg a gwnânt gyfraniad effeithiol at herio arweinwyr a rheolwyr. Mae llywodraethwyr yn gysylltiedig â meysydd y cwricwlwm, sy'n eu helpu i ddatblygu mewnwelediad da o anghenion a blaenoriaethau athrawon a dysgwyr. Maent yn darparu goruchwyliaeth a chymorth effeithiol i ddatblygu polisïau a chynllunio strategol y coleg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg gylch rheoli ansawdd priodol, sy'n sicrhau bod staff a dysgwyr yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at brosesau hunanarfarnu a gwella ansawdd. Mae uwch reolwyr yn cynnal cysylltiadau clir rhwng mentrau cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm a gwella ansawdd, trwy ffocws cyson ar bedwar cyfeiriad strategol craidd y coleg, sef y dysgwr, ansawdd, effaith a rhagoriaeth.

Mae uwch reolwyr yn gwneud defnydd cadarn o ddata ar gyfer hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr y cwricwlwm a staff addysgu yn defnyddio data yn ddigon da i fonitro agweddau ar berfformiad dysgwyr ac o ran arfarnu eu darpariaeth eu hunain. O ganlyniad, mae ansawdd adolygiadau meysydd dysgu yn rhy amrywiol.

Mae mwyafrif o adroddiadau hunanasesu meysydd dysgu a meysydd swyddogaethol, gan gynnwys llywodraethu, yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn ddigon arfarnol. O ganlyniad, mae hanner y barnau hunanasesu ar lefel maes dysgu, a lleiafrif o farnau yn hunanasesiad y coleg cyfan, yn rhy hael o gymharu â barnau'r tîm arolygu. Mae llawer o gynlluniau gwella ansawdd yn effeithiol ar y cyfan o ran nodi camau gweithredu allweddol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, ni chaiff targedau ar gyfer gwella eu gosod yn ddigon cyson na manwl gywir eto mewn lleiafrif o feysydd.

Mae uwch reolwyr yn dechrau defnyddio dangosfyrddau data a ddatblygwyd yn ddiweddar sy'n cwmpasu ystod ddefnyddiol o ddangosyddion allweddol i gymedroli canfyddiadau hunanasesu mewn ffordd ddefnyddiol. Mae hyn wedi arwain at her a diwygiadau priodol i rai barnau arfaethedig ar lefel cwrs a maes dysgu. Mae llawer o reolwyr yn darparu her gadarn wrth nodi cyrsiau sy'n tanberfformio, yn enwedig trwy ddefnyddio panelau gwella ansawdd arbennig. Mae hyn wedi arwain at welliant arwyddocaol, a chyflym mewn rhai achosion, mewn perfformiad ar rai cyrsiau. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn gwneud penderfyniadau anodd hefyd, er enghraifft tynnu cyrsiau o'r cwricwlwm a gynigir, lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol gwneud hynny.

Mae gan y coleg drefniadau cryf ar gyfer ennyn diddordeb dysgwyr mewn mentrau adborth a gwella ansawdd. Mewn llawer o achosion, caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig mewn meysydd fel gwella adnoddau ar gyfer dysgu, ac mewn rhai achosion, ar wella arferion addysgu ac asesu. Mae trefniadau ar gyfer rhoi adborth i ddysgwyr am ddeilliannau ac effaith eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau yn effeithiol. Mae camau gweithredu diweddar sy'n deillio o'r trefniadau hyn yn cynnwys gwelliannau i ansawdd adborth athrawon ar waith dysgwyr a buddsoddi sylweddol mewn gwella darpariaeth Wi-Fi ar draws y coleg.

Ers yr arolygiad diwethaf yn 2012, mae cryfhau systemau a phrosesau rheoli ansawdd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr ar lefel coleg ac ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm. At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo rhaglenni academaidd yn gryf ac mae'r perfformiad cyffredinol ar raglenni galwedigaethol wedi codi'n gyson o fod islaw'r cyfartaledd cenedlaethol i fod yn unol ag ef.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y coleg bartneriaethau cryf iawn ag ystod eang o gyflogwyr lleol a rhanbarthol, yr awdurdod lleol, colegau eraill a phrifysgolion. Mae hyn yn dod â manteision i ddysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau, ymgymryd ag addysg ddefnyddiol sy'n gysylltiedig â gwaith, ac elwa ar addysg bellach ac addysg uwch.

Mae gan y coleg berthnasoedd sefydledig gyda llawer o gyflogwyr bach a chanolig a chwmnïau mawr ledled yr ardal. Mae'r cyflogwyr hyn yn gwerthfawrogi'r ymatebolrwydd a'r hyblygrwydd a ddangosir gan y coleg i fodloni eu hanghenion amrywiol o ran medrau.

Mae llawer o feysydd dysgu yn gwneud defnydd hynod effeithiol o bartneriaethau gyda chyflogwyr i gyfoethogi profiadau dysgu eu dysgwyr, a fyddai'n ddefnyddiol iddynt o ran cael swydd. Er enghraifft, mae partneriaeth y coleg â Theatr y Grand yn Abertawe yn galluogi dysgwyr ar gwrs blwyddyn y celfyddydau perfformiadol i gael gwersi gan bobl broffesiynol o'r byd drama. Mae'r profiadau hyn yn herio dysgwyr i gymhwyso a datblygu eu medrau, gan eu helpu i gydweithio mewn cynyrchiadau a magu hyder yn eu cymeriadu.

Mae gan y coleg berthynas gadarnhaol iawn ag ysgolion lleol. Mae bron pob ysgol yn croesawu cymorth staff y coleg wrth ehangu ymwybyddiaeth dysgwyr o gyfleoedd dilyniant yn y sector ôl-16.

Er mis Medi 2017, mae'r coleg wedi bod yn cyflwyno tri chwrs Safon Uwch a chwrs galwedigaethol mewn ysgol uwchradd 11-18 leol i ehangu'r dewisiadau opsiwn ar gyfer eu dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y bartneriaeth hon ar ddeilliannau'r dysgwyr hyn.

Nodwedd ragorol o ran y ffordd mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth yw'r modd y mae'n gweithio gydag ysgolion ar draws sir Abertawe i gynyddu ehangder a gwella ansawdd y dewisiadau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion 14 i 16 oed. Mae oddeutu 300 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y fenter 'coleg iau', gan ddarparu cyrsiau galwedigaethol lefel mynediad, lefel 1 a lefel 2 mewn meysydd fel gwallt a harddwch, peirianneg, cerbydau modur, plymwaith a gofal plant. Yn ogystal, mae

prosiect “kickstart” yn darparu ystod eang o weithgareddau ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn bobl ifanc NACH. Mae llawer o ddisgyblion sy’n cymryd rhan yn y rhaglenni hyn yn mynd ymlaen i goleg.

Mae’r coleg yn elwa ar bartneriaethau newydd gyda rhai sefydliadau addysg uwch, i ddatblygu a chyflwyno nifer fach o gyrsiau addysg uwch mewn cyrsiau addysg bellach. Mae hyn wedi galluogi dysgwyr na fyddent fel arfer yn ymgymryd ag addysg uwch i gael yr hyblygrwydd i allu dilyn rhaglen yn y coleg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r coleg yn defnyddio ymagwedd ddarbodus at gynllunio ariannol a chynllunio ystadau, gyda’r egwyddor sylfaenol fod gwaith datblygu’n cael ei ariannu gan wargedau yng nghyllideb graidd y coleg. Mae systemau monitro yn drylwyr ac mae llywodraethwyr yn craffu’n fanwl ar gyllidebau. Mae cynllunio ariannol yn bwyllog.

Mae dyrannu adnoddau wedi’i gysylltu’n dda â’r cynllun strategol. Mae uwch reolwyr yn defnyddio dull hyblyg ac entrepreneuraidd o ddatblygu adeiladau i ymateb i gyfleoedd economaidd ac anghenion busnes sy’n newid. Mae’r coleg yn dangos arweiniad rhanbarthol ac mae’n effeithiol wrth sicrhau cyllid allanol. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae’r coleg wedi gwario cryn dipyn o gyllid y mae wedi’i gynhyrchu ei hun ar ddatblygu adeiladau ac isadeiledd TGCh heb fenthyca.

Ymatebodd y coleg yn gyflym ac yn effeithlon i’r tân difrifol yn 2016 ac, o ganlyniad, ni chafwyd effaith anffafriol ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae’r coleg wedi defnyddio ymagwedd feddylgar at adnewyddu adeiladau a ddifrodwyd. Er enghraifft, mae safon y ganolfan adnoddau dysgu a adnewyddwyd yn uchel ac yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda.

Mae uwch reolwyr yn monitro cyllidebau yn rheolaidd ac yn cyfeirio adnoddau’n briodol at feysydd angen. Mae’r coleg wedi cynyddu staffio, gan gynnwys staff cymorth dysgu, ac mae’n cyflogi nifer briodol o staff cymwys i gyflwyno’r cwricwlwm.

Mae’r coleg wedi cyflwyno strategaeth addysgu a dysgu newydd yn ddiweddar. Mae hyn yn dechrau cryfhau cysylltiadau rhwng arsylwi addysgu a dysgu, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid yw’r cysylltiadau rhwng y prosesau hyn yn gwbl effeithiol eto, ac mae’n rhy gynnar i arfarnu effaith y strategaeth ar wella ansawdd cyffredinol yr addysgu a’r dysgu.

Mae diwrnodau hyfforddiant corfforaethol rheolaidd yn y coleg yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i staff rannu arfer dda.

At ei gilydd, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae’r coleg yn cynnig gwerth da am arian.

# Adroddiadau Meysydd Dysgu

Medrau

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu medrau yn cwmpasu dosbarthiadau sgiliau hanfodol Cymru mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, dosbarthiadau TGAU a chyn-TGAU mewn mathemateg, rhifedd a Saesneg, sesiynau medrau ar wahân sy'n gysylltiedig â phrif raglenni a chymorth un i un.  Mae dysgwyr hefyd yn datblygu eu medrau trwy eu prif raglenni astudio a thrwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn asesu cychwynnol a diagnostig cenedlaethol, sef Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST), i nodi anghenion medrau dysgwyr.  Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2017 yn dangos bod 72% a 70% o ddysgwyr yn meddu ar fedrau llythrennedd a rhifedd, yn y drefn honno, ar lefel 1 neu'n is.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella safonau ym medrau dysgwyr

A2 Gwella presenoldeb mewn dosbarthiadau medrau

A3 Gwella ansawdd, manwl gywirdeb a monitro gosod targedau i sicrhau bod targedau dysgwyr yn berthnasol i'w gallu, eu cwrs a'u hanghenion datblygu

A4 Adolygu rhaglenni i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cael cyfleoedd addas i ennill cymwysterau medrau priodol erbyn diwedd eu rhaglenni

A5 Gwella cynllunio a chyflwyno medrau mewn rhaglenni dysgu a sicrhau bod pob un o'r athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau dysgwyr yn effeithiol i gynllunio gwersi sy'n bodloni anghenion dysgwyr

A6 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu mewn gwersi medrau

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn:  Digonol

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol llythrennedd a rhifedd ar ddechrau eu cwrs ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cwblhau asesiad diagnostig manylach.  Mae llawer ohonynt yn cwblhau asesiad cychwynnol i bennu eu cymhwysedd mewn llythrennedd digidol hefyd.  Mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau hyn yn briodol i osod targedau bras ar gyfer gwella, ac mae llawer ohonynt yn monitro'r rhain yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir yn rhai digon tymor byr neu fanwl gywir.  O ganlyniad, mae gormod o ddysgwyr na allant ddisgrifio eu meysydd penodol i'w datblygu yn ddigon da.

Mewn gwersi medrau dynodedig, mae llawer o ddysgwyr yn galw i gof eu gwybodaeth flaenorol yn dda, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddysgwyr nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar esboniadau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau ac yn unigol ar eu tasgau. Mae mwyafrif y dysgwyr ar draws yr holl raglenni dysgu yn cyfrannu'n dda at drafodaeth ddosbarth ac yn esbonio eu syniadau'n glir. Er enghraifft, yn y celfyddydau perfformiadol a'r celfyddydau gweledol, mae dysgwyr yn cyfiawnhau eu dewisiadau creadigol ac yn esbonio pam maent wedi dewis technegau penodol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, pan fyddant yn cael cyfle, mae atebion lleiafrif o ddysgwyr, yn enwedig mewn gwersi medrau, yn fyr a heb eu datblygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n briodol at ystod addas o ddibenion. Yn benodol, mae'r rheiny sy'n gweithio ar lefelau uwch yn dewis y geiriau cywir ac yn defnyddio termau sy'n benodol i bwnc yn dda yn eu hysgrifennu. Mae llawer o ddysgwyr yn sillafu'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu'n annibynnol yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis y geiriau anghywir neu nid ydynt yn ystyried eu cynulleidfa yn ddigon da, neu nid oes strwythur digonol i'w hysgrifennu.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau y maent yn eu darllen o ystod o ffynonellau, er enghraifft o ganllawiau neu ymchwil. Mewn rhai meysydd dysgu, mae llawer o ddysgwyr lefel 3 yn cyfosod gwybodaeth yn effeithiol o ystod o ffynonellau. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn crynhoi na chyfosod gwybodaeth yn ddigon da.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o dasgau rhifedd mewn sesiynau medrau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio cyfrifianellau yn briodol i ganfod cyfrifiadau syml ar gyfer problemau go iawn. Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu rhifedd yn dda mewn cyd-destunau sy'n digwydd yn naturiol, er enghraifft trwy ddefnyddio fformiwlâu i gyfrifo cyfartaleddau neu ddadansoddi data gan ddefnyddio ystadegau'r llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar draws pob rhaglen yn datblygu eu rhifedd yn ddigon da mewn cyd-destun, ac mewn rhai meysydd, maent yn gweithio ar lefelau islaw lefel eu medrau. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar gyfrifianellau i wneud cyfrifiadau sylfaenol.

Mewn rhai meysydd dysgu, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio ystod addas o offer digidol i gwblhau tasgau ar eu prif raglenni astudio. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw digon o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn dda.

Mae bron pob dysgwr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn ymddwyn yn dda, ac mae gan lawer ohonynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig llai na hanner y gwersi medrau, mae cyfraddau presenoldeb yn rhy isel.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Digonol

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr wella eu medrau llythrennedd a rhifedd ar gyrsiau TGAU a chyn-TGAU a chyrsiau galwedigaethol eraill. Mae'r llwybrau hyn yn darparu llwybrau dilyniant clir. Fodd bynnag, ni chaiff rhai dysgwyr yn eu blwyddyn astudio olaf ddigon o gyfle i ennill cymhwyster medrau.

Mae dysgwyr a thiwtoriaid personol yn gosod targedau llythrennedd a rhifedd yn briodol gan ddefnyddio asesiadau cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn nodi eu targedau ar gyfer rhaglenni TGAU neu cyn-TGAU, ac ni chaiff cynnydd yn erbyn targedau ei adolygu'n ddigon rheolaidd. Yn ychwanegol, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o dargedau dysgwyr i flaenoriaethu meysydd i'w datblygu a sicrhau bod dysgwyr yn gweithio'n effeithiol ar y lefel gywir i wella'u deilliannau.

Mewn gwersi medrau, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes. Datblygant berthnasoedd gweithio da gyda dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn cadw cofnodion unigol defnyddiol o ddysgwyr, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Pan fydd ar gael, gwnânt ddefnydd effeithiol o gymorth yn y dosbarth, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud defnydd priodol o adnoddau i ymgysylltu â dysgwyr, a'u herio. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio dysgwyr yn ddigon da ac mae'r dysgu'n symud yn rhy araf. Nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o dechnegau holi i brocio a datblygu dealltwriaeth yr holl ddysgwyr. Yn ychwanegol, nid yw darpariaeth mewn lleiafrif o wersi medrau y tu allan i raglenni TGAU wedi'i chysylltu'n ddigon da â'u prif raglenni astudio, ac mewn rhai achosion, mae'n dibynnu'n ormodol ar ddefnyddio adnoddau WEST.

Mae mwyafrif o athrawon mewn meysydd dysgu yn darparu cyfleoedd addas i ddysgwyr ymarfer eu medrau mewn cyd-destunau sy'n digwydd yn naturiol. Er enghraifft, mewn astudiaethau busnes a'r gyfraith, mae athrawon yn defnyddio astudiaethau achos yn briodol i ddatblygu medrau cyfathrebu dysgwyr. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb o fewn meysydd dysgu a rhyngddynt o ran pa mor dda y mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau dysgwyr mewn cyd-destunau perthnasol.

Mae mwyafrif yr athrawon ar draws meysydd dysgu yn rhoi adborth addas i ddysgwyr am gywirdeb technegol eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon mewn sesiynau medrau yn esbonio i ddysgwyr sut i wella eu gwaith yn ddigon da.

Ceir cyfleoedd addas i ddysgwyr wella eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy, er enghraifft wrth gymharu erthyglau am hawliau dynol a mewnfudo. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer cynnal a gwella medrau Cymraeg dysgwyr wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae ystafelloedd addysgu yn addas at eu diben ac yn cynnwys adnoddau da. Mae cyflenwad da o lyfrau yn y llyfrgell, sydd ag ystod eang o destunau perthnasol.

Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu yn darparu ystod eang o gyrsiau mewn rheoli busnes, gweinyddu, y gyfraith, cyllid a chyfrifeg. Cyflwynir y rhan fwyaf o gyrsiau ar safleoedd Gorseinon a Thycoch. Cyflwynir cyrsiau addysg uwch a rhaglenni hyfforddiant corfforaethol a phroffesiynol yn Neuadd Sgeti hefyd, er nad yw'r rhain wedi'u cwmpasu fel rhan o'r arolygiad hwn.

Mae'r arolygiad o'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar raglenni galwedigaethol. Mae'r coleg hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau UG a Safon Uwch mewn pynciau yn gysylltiedig â busnes. Caiff y cyrsiau hyn eu harolygu trwy'r maes arolygu sy'n gysylltiedig â chyrsiau Safon Uwch.

Mae'r maes dysgu yn cynrychioli tua 10% o holl ddarpariaeth y coleg.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella cyfraddau llwyddo mewn rhaglenni sy'n tanberfformio

A2 Gwneud yn siŵr fod pob dysgwr yn cyrraedd gwersi'n brydlon

A3 Cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau dysgu dwyieithog ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg

A4 Cynyddu'r defnydd o holi estynedig i ymestyn a herio pob dysgwr

## Prif ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

## Barn: Da

Bu gwelliant sylweddol mewn cyfraddau llwyddo ar gyfer prif gymwysterau galwedigaethol mewn busnes, gweinyddu a'r gyfraith o 70% yn 2014-2015 i 83% yn 2015-2016. Mae hyn yn welliant o fod ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2014-2015 i dri phwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2015-2016. Mae data cyhoeddedig ar gyfer 2016-2017 yn dangos rhagor o welliant yn y gyfradd lwyddo gyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae dysgwyr sy'n astudio cymwysterau ar lefel 3 neu'n uwch yn cyflawni deilliannau cyson gryf. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr ar rai rhaglenni lefel 1 a lefel 2 yn perfformio islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n dda ac yn cyflawni cyfraddau llwyddo tebyg i ddysgwyr eraill.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd effeithiol mewn gwersi ac mae rhai ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, ac mae mwyafrif ohonynt yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol wrth gwblhau tasgau newydd ac anghyfarwydd, fel paratoi datganiadau cyfrifeg.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni llwybr carlam mewn troseddeg neu fusnes yn gwneud cynnydd cryf, yn aml ar ôl cyflawni graddau siomedig mewn cyrsiau UG. Mae'r graddau a gyflawnir ar y rhaglenni hyn yn eu galluogi i fynd ymlaen i addysg uwch o fewn y raddfa amser ddisgwyliedig wreiddiol, er gwaethaf yr anawsterau a gawsant yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn mynd yn eu blaenau i lefelau astudio uwch, gan gynnwys addysg uwch neu brentisiaethau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u targedau llythrennedd a rhifedd a'u cynnydd tuag at gyflawni'r rhain. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio cymwysiadau meddalwedd prosesu geiriau a chyflwyno yn effeithiol yn eu gwaith. Mae rhai dysgwyr ar gyrsiau cyfrifyddiaeth yn gwneud defnydd effeithiol o swyddogaethau taenlen, fel swyddogaethau IF rhesymegol, wrth ymgymryd â dadansoddi ariannol.

Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda gyda sillafu cywir ac atalnodi priodol. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i adborth gan eu hathrawon ac yn defnyddio'r adborth yn briodol i wella safonau eu gwaith er mwyn cyflawni graddau uwch. Mewn rhai rhaglenni, mae dysgwyr yn dangos medrau llythrennedd digidol cryf.

Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r amgylchedd busnes yng Nghymru, prin yw'r dysgwyr sy'n cynnal neu'n gwella eu medrau Cymraeg o ran eu dysgu blaenorol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â bod yn iach ac yn ddiogel yn y coleg. Ar y rhan fwyaf o gyrsiau, mae dysgwyr yn mynychu'n dda. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Mae hyn yn arwain at oedi wrth ddechrau rhai gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi ac maent yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu cyfoedion a'u hathrawon. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn dal ati i ganolbwyntio ar weithgareddau dysgu yn ystod gwersi a therfir arnynt yn rhy hawdd.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil yn y gymuned, ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd gwerthfawr.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynllunio'i gwricwlwm yn effeithiol ac yn cynnig ystod gynhwysfawr o raglenni sy'n addas ar gyfer cymwysterau mynediad ac anghenion dilyniant y dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol drylwyr ac yn defnyddio eu medrau a'u profiad diwydiannol yn dda. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n effeithiol, ac o ganlyniad, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf ar y cyfan. Mae gan bron bob un o'r athrawon berthynas gref gyda dysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu addas i ennyn

diddordeb dysgwyr. Mae mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o dechnoleg gwybodaeth a dysgu mewn sesiynau, ac mewn rhai rhaglenni, mae dysgwyr yn dangos medrau llythrennedd digidol da. Fodd bynnag, nid oes gan rai athrawon y medrau i wneud y defnydd mwyaf buddiol o dechnoleg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gynlluniau dysgu unigol dysgwyr i olrhain cynnydd pob dysgwr a chyfleu pryderon i diwtoriaid personol. Maent yn rhoi adborth cynhwysfawr ar asesiadau crynodol, a ddefnyddir gyda dysgwyr i osod targedau priodol i wella. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio holi uniongyrchol yn effeithiol. Fodd bynnag, ychydig ohonynt yn unig sy'n defnyddio holi estynedig yn fedrus gyda dysgwyr mwy abl i gael atebion manylach.

Mae bron pob un o'r athrawon yn datblygu medrau llythrennedd dysgwyr yn briodol mewn gwersi. Mewn rhai sesiynau, mae athrawon yn cynnwys tasgau rhifedd sylfaenol mewn cyd-destun galwedigaethol priodol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw cymhlethdod y tasgau yn ymestyn a datblygu medrau rhifedd ar lefel uwch. Er bod llawer o athrawon yn nodi yn eu cynllunio ble bydd medrau'n cael eu datblygu yn gyffredinol, lleiafrif ohonynt yn unig sy'n cynllunio'n fanwl ar gyfer cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu, ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr am amgylchedd busnes Cymru yn effeithiol. Mae llawer o arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn ddwyieithog, ac fe gaiff ymadroddion cymhellol eu harddangos yn amlwg ar y waliau yn y rhan fwyaf o ardaloedd, yn enwedig ar gampws Gorseinon. Cynigir cyfle i bob un o'r dysgwyr gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid oes digon ohonynt yn manteisio ar yr opsiwn hwn.

Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth wedi eu cyflwyno'n dda, ac mae llawer ohonynt yn cynnwys arddangosfeydd busnes perthnasol. Mae bron pob un o'r ystafelloedd dosbarth yn cynnwys offer da gyda chyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn cynnig ystod eang o gyrsiau o lefel 1 i lefel 5, gan gynnwys cwrs mynediad at nyrsio ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion.

Mae'r arolygiad o'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar raglenni galwedigaethol. Mae'r coleg hefyd yn cynnig cyrsiau UG a Safon Uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff y cyrsiau hyn eu harolygu trwy'r maes arolygu sy'n gysylltiedig â chyrsiau Safon Uwch.

Cyflwynir y ddarpariaeth ar gampysau Tycoch a Gorseinon yn bennaf, ac mae'n cynrychioli tua 18% o holl ddarpariaeth y coleg.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr wella eu medrau llythrennedd digidol

A2 Rhannu arfer orau yn fwy effeithiol i wella ansawdd a chysondeb yr addysgu

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Da**

Yn 2015-2016, cwblhaodd dysgwyr ar lawer o gyrsiau eu prif gymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. At ei gilydd, mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos gwelliant. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar rai cyrsiau, er enghraifft diploma lefel 1 mewn iechyd a gofal cymdeithasol, wedi gostwng neu maent islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data cyhoeddedig 2016-2017 yn dangos bod cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer prif gymwysterau yn dangos ychydig o welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu hastudiaethau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn eu portffolios. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn gwersi a gallant gwblhau safon uchel o dasgau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw dysgwyr yn gweithio'n annibynnol, ac yn y gwersi hyn, mae rhai dysgwyr yn oddefgar neu nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn disgrifio eu profiadau yn eu lleoliadau gwaith yn fanwl ac yn cymhwyso'r profiadau hyn yn rhwydd i'w gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn hyderus ac yn dangos medrau siarad a gwrando cadarn.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd ag asesiad diagnostig cychwynnol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr dargedau clir sy'n ymwneud â phresenoldeb a gwaith cwrs, y maent yn eu rheoli'n effeithiol gan ddefnyddio eu cynlluniau dysgu unigol electronig. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr bob amser yn glir ynglŷn â beth yw eu targedau llythrennedd a rhifedd na beth mae angen iddynt ei wella. Ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn dda.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau Cymraeg defnyddiol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau gofal plant lefel 2 yn dysgu ymadroddion a brawddegau Cymraeg, maent yn siarad yn hyderus gyda'i gilydd mewn grwpiau ac yn ymarfer sut i gymhwyso eu Cymraeg mewn gweithleoedd gyda phlant ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu ac ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, sy'n datblygu medrau cymdeithasol ac yn hyrwyddo iechyd. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn cymryd rhan mewn trefnu parti blynyddol i blant ac mae myfyrwyr iechyd yn darparu te prynhawn i grŵp cymunedol ar gyfer pobl â dementia. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd ar draws y coleg, fel zumba a pilates.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Da

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod eang a hyblyg o gyrsiau amser llawn a rhan-amser ar bob lefel. Er enghraifft, gellir astudio diploma lefel 2 yng ngofal, dysgu a datblygiad y plentyn ar gwrs amser llawn, rhan-amser neu fel prentisiaeth. Mae amrywiaeth y cyrsiau yn bodloni anghenion y dysgwyr a'r cyflogwyr yn dda.

Mae gan y maes dysgu gysylltiadau sefydledig gydag ystod eang o gyflogwyr. Mae athrawon yn trefnu rhaglen o leoliadau gwaith gydag ysgolion lleol a chartrefi nyrsio ar gyfer bron pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr hynny ar gyrsiau lefel 1. Mae'r lleoliadau gwaith hyn yn rhoi medrau gwerthfawr i ddysgwyr, fel hyder cynyddol a gweithio mewn tîm, yn ogystal â gwella medrau galwedigaethol dysgwyr, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am arfer bresennol y sector, a datblygu cysylltiadau defnyddiol i gael swydd.

Mae bron pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gyfoes, y maent yn ei defnyddio'n dda i gynllunio gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno gwersi ysgogol, rhyngweithiol a difyr. Mae llawer ohonynt yn defnyddio technegau holi effeithiol ac yn annog dysgu annibynnol. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn herio dysgwyr i weithio na meddwl yn ddigon annibynnol, ac yn y gwersi hyn, mae rhai dysgwyr yn mynd yn oddefgar neu nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar wers Gymraeg a addysgir, fel rhan o'u cwricwlwm, sy'n datblygu medrau iaith ar gyfer y gweithle. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn dysgu geiriau a brawddegau allweddol y gallant eu defnyddio yn eu harfer alwedigaethol.

Mae gan bron bob un o'r athrawon berthnasoedd gweithio da â'u dysgwyr. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda a gallant ddarparu cymorth addas i'w cymell a'u hannog. Mae athrawon yn nodi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol trwy eu proffiliau grŵp.

Yn ddiweddar, mae'r maes dysgu wedi datblygu rhaglen i ddysgwyr mwy abl a thalentog ar gyfer dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol lefel 3. Nod y rhaglen yw annog dysgwyr i godi eu dyheadau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y rhaglen hon ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae bron pob ystafell ddosbarth yn adlewyrchu'r maes dysgu yn dda, gydag arddangosfeydd ysgogol a deniadol ar waliau, y mae llawer ohonynt yn ddwyieithog. Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn cynnwys offer da gyda thechnoleg gyfoes.

| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| --- |

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu yn cyflwyno cyrsiau mewn peirianneg electronig, peirianneg fecanyddol a pheirianneg cerbydau modur. Cynigir cyrsiau o lefel 1 i lefel 5, gydag ystod eang o gyrsiau amser llawn a rhan-amser ar gyfer dysgwyr cyflogedig, prentisiaeth a chyswllt ysgolion.

Mae'r arolygiad o'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar raglenni galwedigaethol o lefel 1 i lefel 3. Mae'r coleg hefyd yn cynnig cyrsiau UG a Safon Uwch mewn pynciau sy'n gysylltiedig â pheirianneg. Caiff y cyrsiau hyn eu harolygu trwy'r maes arolygu sy'n gysylltiedig â chyrsiau Safon Uwch.

Mae cyrsiau peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu yn cynrychioli oddeutu 6% o ddarpariaeth y coleg. Cyflwynir cyrsiau peirianneg ar gampysau Tycoch a Gorseinon mewn cyfleusterau peirianneg arbenigol.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr mewn cyrsiau sydd â thueddiadau islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol

A2 Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gynnal a datblygu eu medrau Cymraeg

A3 Gwella cysondeb yr addysgu trwy nodi a rhannu arfer orau

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Da**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r dysgwyr wedi cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau da. Mae data cyhoeddedig ar gyfer 2016-2017 yn dangos bod cyfraddau llwyddo cyffredinol dysgwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau wedi parhau i gael eu cynnal. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae dysgwyr ar gyrsiau lefel 3 wedi perfformio'n arbennig o dda. Fodd bynnag, ar lefel 1 a lefel 2, mae cyfraddau llwyddo rhai cyrsiau islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf mewn dosbarthiadau ymarferol ac yn datblygu ystod eang o fedrau yn gysylltiedig â diwydiant. Dangosant hyder a chymhwysedd wrth ymgymryd â thasgau yn eu harbenigedd peirianneg. Mae dysgwyr peirianneg fecanyddol yn defnyddio turnau a pheiriannau melino i ffurfio cydrannau i oddefiannau cywir ac mae dysgwyr peirianneg electronig yn creu byrddau cylched cymhleth. Mae dysgwyr cerbydau modur yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau gwasanaethu a chynnal a chadw i safonau diwydiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn dda i ymgymryd â thasgau mwy cymhleth wrth i'w gallu a'u dealltwriaeth ddatblygu.

Mewn dosbarthiadau theori, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am theori yn dda a gwnânt gynnydd cadarn tuag at eu cymwysterau. Mae rhai ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn ac yn datblygu gwybodaeth ar lefel uwch am egwyddorion peirianneg mwy cymhleth. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ateb cwestiynau'n gywir, gan ddefnyddio'r termau a'r ymadroddion technegol priodol. Bron ym mhob sesiwn, mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda a gyda'u cyfoedion. O ganlyniad i ddatblygu ystod eang o fedrau yn gysylltiedig â gwaith, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'r priodoleddau i gael swydd, a'i chynnal.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae llawer ohonynt yn glir ynglŷn â beth yw eu

targedau gwella llythrennedd a rhifedd, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae llawer o ddysgwyr yn cyflwyno eu gwaith yn dda gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn datblygu eu hyder wrth gwblhau ystod eang o gyfrifiadau peirianneg.

Ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n cynnal neu'n datblygu eu medrau Cymraeg trwy eu rhaglenni dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ac wedi eu cymell i gwblhau eu cwrs ac mae llawer ohonynt yn awyddus i fynd ymlaen i'r lefel nesaf. Dangosant lawer o barch at ei gilydd a'u hathrawon. Bron ym mhob un o'r sesiynau, mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda a gyda'u cyfoedion. Maent yn sylwgar ac yn gwrando ar safbwyntiau pobl eraill yn barchus. O ganlyniad i fynychu eu cyrsiau, mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu hyder a'u hunan-barch. Mewn gweithdai ymarferol, mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o iechyd a diogelwch. Mewn ystafelloedd dosbarth, gweithdai ac o gwmpas y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn ymddwyn yn arbennig o dda. Mae dysgwyr yn mynychu'n dda ar draws y ddarpariaeth peirianneg.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynnig cwricwlwm eang ac mae ganddo ffocws clir ar ddatblygu medrau peirianneg a chyflogadwyedd dysgwyr. Mae bron pob un o'r athrawon yn annog dysgwyr i fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau lefel uwch, addysg uwch neu raglenni prentisiaeth. Mae gan lawer o gyrsiau gysylltiadau buddiol â diwydiant, ac mae mwyafrif o ddysgwyr yn elwa ar brofiad gwaith gwerth chweil.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol berthnasol a defnyddiant eu medrau a'u profiad diwydiannol yn effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau ymarferol a'u gwybodaeth am theori yn dda. Mae llawer o athrawon yn cysylltu'n glir berthnasedd gweithgareddau gweithdy a gweithgareddau ystafell ddosbarth i weithio yn y diwydiant peirianneg. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi eu paratoi'n dda ar gyfer dilyniant i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae diffyg cyflymdra a her mewn rhai sesiynau, ac yn y rhain, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau treiddgar estynedig i brofi a herio dysgwyr yn ddigon da.

Mae llawer o athrawon yn datblygu medrau dysgwyr yn dda, yn enwedig mewn gweithdai a sesiynau ystafell ddosbarth lle mae cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn digwydd yn naturiol. Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon clir sut i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. At ei gilydd, nid yw athrawon yn y maes dysgu yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu na chynnal medrau Cymraeg dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio asesiadau'n dda ac yn cynnal cofnodion olrhain cyfoes. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a dysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol electronig yn effeithiol i olrhain cynnydd dysgwyr, rhoi adborth crynodol a gosod targedau asesu a medrau.

Mae athrawon yn atgyfnerthu iechyd a diogelwch yn briodol, yn enwedig mewn gwersi ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai yn cynnwys adnoddau da a chânt eu cynnal yn dda ag offer sy'n bodloni anghenion dysgwyr.

| Cyrsiau Safon Uwch |
|---|

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae darpariaeth Safon Uwch y coleg wedi'i lleoli ar gampws Gorseinon. Mae'n darparu ar gyfer mwyafrif dysgwyr Safon Uwch y ddinas. Mae tua 1,400 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar raglenni UG neu Safon Uwch ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r maes dysgu'n darparu ar gyfer tua 40 o ddysgwyr rhyngwladol sy'n talu ffioedd.

Mae'r coleg yn cynnig tua 40 o bynciau Safon Uwch, yn ogystal â rhaglen eang o weithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol. Yn ychwanegol, mae'n darparu llwybr mynediad cyn Safon Uwch ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu graddau TGAU. Gofyniad mynediad y coleg ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yw saith cymhwyster TGAU gradd C neu'n well, ac mae gan rai pynciau ofynion ychydig yn uwch ar gyfer cyrsiau TGAU penodol.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella cyrhaeddiad graddau dysgwyr ar gyrsiau sy'n tanberfformio

A2 Gwella strategaethau addysgu i sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn cael eu herio'n ddigonol mewn gwersi

## Prif ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

## Barn: Da

Dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014 a 2017, mae cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch ac UG yn llwyddiannus wedi bod yn gyson gryf. Mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus wedi gwella ychydig ac yn dangos tueddiadau uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae dysgwyr o gymunedau sy'n ddifreintiedig yn economaidd a dysgwyr ag anableddau yn ennill eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau tebyg i, neu ychydig islaw, eu cyfoedion yn y coleg. Ar draws mwyafrif o gyrsiau Safon Uwch, mae dysgwyr yn cyflawni graddau cryf o ran eu cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU. Ar rai cyrsiau, mae cyrhaeddiad graddau yn uchel iawn. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar rai cyrsiau yn cyflawni graddau da yn gyson.

Mae gan bron bob un o'r dysgwyr agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn sylwgar mewn gwersi ac yn canolbwyntio'n dda ar esboniadau a thasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n ddiwyd ar gyflymdra priodol wrth weithio'n annibynnol mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf ac mae rhai ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn effeithiol a gall llawer ohonynt gymhwyso eu dysgu i gyd-destunau newydd yn dda. Mae rhai dysgwyr yn ennill gwybodaeth werthfawr am ymchwil ehangach. Er enghraifft, mewn gwersi seicoleg, mae dysgwyr yn dod o hyd i, ac yn arfarnu, astudiaethau achos cyhoeddedig yn annibynnol.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn dda fel rhan o sgyrsiau mewn gwersi. Maent yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc a therminoleg dechnegol yn gywir ac yn hyderus wrth esbonio'u syniadau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi ar draws y maes dysgu, nid yw rhai dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at wersi ac maent yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp.

Ar gyfer llawer o bynciau, mae dysgwyr yn llunio atebion ysgrifenedig cynhwysfawr i dasgau a chwestiynau. Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn anodi eu nodiadau pwnc yn fedrus gyda phwyntiau pwysig sy'n deillio o drafodaethau ystafell ddosbarth ac esboniadau'r athro. Fodd bynnag, mae gwaith lleiafrif o ddysgwyr wedi'i drefnu'n wael ac nid yw rhai dysgwyr yn ysgrifennu mewn ffordd ddigon dadansoddol, yn enwedig wrth fyfyrio ar eu gwaith eu hunain.

Mewn gwersi pwnc perthnasol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos gallu mathemategol cadarn ac mae mwyafrif o ddysgwyr yn dangos medrau mathemategol cryf. Mewn pynciau ehangach, pan fydd cyfleoedd yn codi, mae llawer o ddysgwyr yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau rhifedd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn effeithiol. Er enghraifft, mewn gwersi ffotograffiaeth, mae dysgwyr yn defnyddio meddalwedd safon diwydiant i olygu a mireinio delweddau yn fedrus.

Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn ymgymryd yn weithredol â chyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Er enghraifft, fel rhan o weithgareddau cerddoriaeth a drama, mae dysgwyr yn paratoi a chyflwyno perfformiadau dwyieithog.

Mae llawer o ddysgwyr yn uchelgeisiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cynnydd o'i gymharu â'u graddau targed. Mae mwyafrif y dysgwyr yn mynd ati i gymryd rhan yng ngweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr y coleg i gefnogi eu datblygiad personol ac academaidd. Mae lleiafrif ohonynt yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau allgyrsiol neu'u hastudiaethau. Mae dysgwyr Safon Uwch yn hynod wybodus a pharod ar gyfer gwneud cais i brifysgolion. Mae llawer ohonynt yn symud ymlaen i gyrsiau mewn amrywiaeth o brifysgolion, gan gynnwys y rheiny sydd â gofynion mynediad hynod gystadleuol.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod helaeth o gyrsiau Safon Uwch sy'n bodloni anghenion a dyheadau bron pob un o'r dysgwyr. Mae dysgwyr yn elwa hefyd ar gyfleoedd gwerthfawr i astudio ar gyfer ystod eang o gymwysterau ychwanegol sy'n eu helpu i symud ymlaen i addysg uwch a chyflogaeth. Er enghraifft, gallant ddewis dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, y Cymhwyster Prosiect Estynedig neu raglenni sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol fel Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddiaeth. Hefyd, mae cyfle i ddilyn cyrsiau Safon Uwch mewn lleiafrif o bynciau, fel hanes hynafol a'r clasuron, yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr greu cyfuniadau hynod deilwredig o bynciau.

Mae dysgwyr yn elwa ar ystod helaeth o weithgareddau cyfoethogi a chysylltiadau â phartneriaid allanol. Mae'r rhain yn rhoi profiadau o ansawdd uchel iddynt sy'n

gwella'u medrau ac yn ehangu eu gorwelion. Er enghraifft, mae rhaglen gyfoethogi gynhwysfawr yn y celfyddydau perfformiadol yn helpu paratoi dysgwyr ar gyfer y broses archwilio addysg uwch.

Mae sesiynau tiwtorial cyfrwng Cymraeg yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno cynnal neu wella eu medrau Cymraeg. Mae gweithgareddau gwella dwyieithog, fel gweithdai drama a sesiynau tiwtorial cerddoriaeth, yn rhoi cyfleoedd creadigol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, ar draws y maes dysgu, mae cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn gyfyngedig.

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth a dealltwriaeth bynciol gref o ofynion arholi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio gwersi'n briodol gan ddefnyddio ystod o strategaethau sy'n difyrru a diddori dysgwyr. Defnyddiant holi'n dda i brofi dealltwriaeth dysgwyr a'r ffordd y maent yn galw dysgu blaenorol i gof. Mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr i gyflawni'r graddau uwch. Mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio technegau holi hynod effeithiol i brocio atebion myfyrwyr a'u herio i ymestyn eu syniadau a'u rhesymau. Mae rhai athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio ac ymestyn dysgwyr mwy abl. Er enghraifft, mae athrawon Saesneg yn cynllunio gweithgareddau sy'n cynnwys dysgwyr mewn dadleuon academaidd heriol am ffeministiaeth a beirniadaeth lenyddol Farcsaidd. Fodd bynnag, ar draws y maes dysgu, nid yw lleiafrif o athrawon yn herio dysgwyr mwy abl i ddatblygu eu medrau meddwl lefel uwch a dadansoddol yn ddigon da.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn monitro cynnydd yn effeithiol ac yn darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol ar lafar i helpu dysgwyr i wella'u gwaith. Mewn rhai pynciau, mae athrawon yn datblygu gallu dysgwyr i arfarnu gwaith eu cyfoedion yn fedrus. Er enghraifft, mewn gwersi ffotograffiaeth, mae athrawon yn gwahodd dysgwyr i adolygu nodweddion effeithiol yng ngwaith cyn-fyfyrwyr. Fodd bynnag, ar draws y maes dysgu Safon Uwch, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol ac nid yw'n nodi'n drylwyr y meysydd i'w gwella yng ngwaith dysgwyr yn ddigon da.

Mae'r maes dysgu yn darparu cymorth tiwtorial bugeiliol ac academaidd cryf ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cyfle i elwa ar raglen helaeth o sesiynau tiwtorial arbenigol sydd wedi'u teilwra i gefnogi dilyniant i addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant. Er enghraifft, mae sesiwn diwtorial feddygol y coleg a rhaglen 'academi'r dyfodol' yn gwneud cyfraniad pwysig at gynorthwyo dysgwyr â'u dewisiadau am opsiynau gyrfa yn y dyfodol. Gall dysgwyr gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau chwaraeon sy'n hyrwyddo ffordd iach o fyw.

Mae'r maes dysgu yn darparu cymorth cynhwysfawr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Pan fydd angen, caiff dysgwyr ag ADY gymorth personoledig hynod effeithiol gan gynorthwywyr cymorth dysgu mewn gwersi. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob dysgwr ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyrraedd eu nodau. Caiff dysgwyr mwy abl a thalentog gymryd rhan mewn rhaglenni buddiol, fel 'HE+' a 'Seren' sy'n eu helpu i gael mewnwelediad buddiol i'r disgwyliadau a'r heriau wrth astudio mewn prifysgolion mawreddog.

Mae'r maes dysgu yn hyrwyddo ethos cynhwysol a chefnogol. Mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelodau o gymuned amrywiol sy'n cynnwys poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr rhyngwladol. Ceir offer da ym mhob ystafell ddosbarth a labordy, ac maent yn addas at eu diben.

Celf a Dylunio

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae maes dysgu'r celfyddydau creadigol yn cynnig cyrsiau mewn celf a dylunio, y celfyddydau perfformiadol a'r cyfryngau creadigol. Mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli ar ddau gampws, gyda darpariaeth ar lefel 1, lefel 2 a lefel 3 yn Llwyn y Bryn a darpariaeth ar lefel 2 a lefel 3 yng Ngorseinon.

Mae'r arolygiad o'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar raglenni galwedigaethol. Mae'r coleg hefyd yn cynnig cyrsiau UG a Safon Uwch ym mhynciau'r celfyddydau creadigol. Caiff y cyrsiau hyn eu harolygu trwy'r maes arolygu sy'n gysylltiedig â chyrsiau Safon Uwch.

Mae'r maes dysgu yn cynrychioli tua 11% o ddarpariaeth y coleg. Ar rai cyrsiau, mae gan hyd at 50% o ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr mewn cyrsiau sy'n tanberfformio

A2 Gwella prydlondeb dysgwyr

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gynnal a datblygu eu medrau Cymraeg

A4 Gwella ansawdd y ddarpariaeth ynysu rhag sain mewn rhai ystafelloedd cerdd

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Mewn lleiafrif o gyrsiau, daw hyd at hanner o ddysgwyr o ardaloedd economaidd difreintiedig. Mae dysgwyr y mae'n rhaid iddynt oresgyn cryn rwystrau er mwyn gwneud cynnydd yn eu dysgu yn mynychu lleiafrif o gyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, yn aml o fannau cychwyn isel. Gwnânt gynnydd cyflym wrth drefnu perfformiadau drama, dawns a cherddorol, gan ddefnyddio adborth ac arweiniad gan athrawon i wella eu cymeriadu a'u perfformiad. Pan fydd dysgwyr yn rhagori yn eu pwnc, mae tiwtoriaid yn eu herio ymhellach i wella perfformiad ac ymestyn eu medrau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn myfyrio'n sensitif ar y gwaith y maen nhw a'u cyfoedion yn ei wneud. Maent yn rhoi adborth adeiladol i'w gilydd, ac mae dysgwyr yn derbyn yr adborth mewn ffordd ystyriol. Mae dysgwyr yn gosod targedau hunanwella yn rheolaidd, a hefyd yn rhoi ystyriaeth dda i'r adborth a gânt gan athrawon i ddatblygu eu harbenigedd. Mae llawer o ddysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith creadigol sydd o safon uchel gan amlaf. Defnyddiant offer a meddalwedd safon diwydiant arbenigol yn dda, er enghraifft wrth gynhyrchu a gweithredu dyluniadau goleuo ar gyfer cynhyrchiad theatr a defnyddio meddalwedd trin delweddau i wella'u delweddau digidol i gynhyrchu portreadau dychmygus, haniaethol i safon uchel.

Mae llawer o ddysgwyr yn deall eu targedau llythrennedd a rhifedd a'u cynnydd tuag atynt. Mae dysgwyr yn ystyried adborth athrawon i gywiro'u gwaith a gwella'u medrau ysgrifennu. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos defnydd hyderus a manwl gywir o derminoleg gymhleth sy'n benodol i bwnc. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran mesur a gwneud cyfrifiadau ynglŷn â pherimedrau ac arwynebeddau gwaith celf, gan ddefnyddio algebra a fformiwlâu sylfaenol.

Mae dysgwyr yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau cymunedol cyffrous, fel cyfrannu at brosiect celf stryd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cyfoethogi ac maent yn cydnabod gwerth y rhain wrth ddatblygu eu dysgu a'u dyheadau eu hunain.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant Cymru. Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiect perfformiad dwyieithog allgyrsiol lle maent yn archwilio gwerth dwyieithrwydd mewn lleoliad celfyddydau creadigol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos sensitifrwydd a phryder at anghenion pobl eraill. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae rhai dysgwyr yn hwyr.

At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2016-2017, mae cyfraddau llwyddo tua hanner y cyrsiau diploma lefel 3 a chyrsiau diploma estynedig islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, eleni, mae cyfraddau cadw ar gyfer dysgwyr wedi gwella.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr lefel 1 ddatblygu sylfaen o fedrau creadigol, wrth iddynt ddatblygu eu llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 2. Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod eang o ddarpariaeth ar lefel 2 a lefel 3, sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn cyrsiau sy'n gweddu i'w diddordebau a datblygu eu doniau.

Mae gan y maes dysgu gysylltiadau cryf â phobl broffesiynol o ddiwydiannau'r celfyddydau sy'n ychwanegu gwerth galwedigaethol at ddysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn y celfyddydau perfformiadol yn derbyn hyfforddiant gan bobl broffesiynol o fyd actio trwy bartneriaeth y coleg â phrif theatr y ddinas. Mae'r hyfforddiant hwn yn herio eu medrau ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer clyweliadau gyda cholegau drama.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda, gan wneud defnydd effeithiol o ystod eang o weithgareddau addysgu. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu profiad proffesiynol, er enghraifft mewn cynhyrchu radio, i wella realaeth addysgu. Mewn sesiynau ymarferol, mae gan bron bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o ddysgwyr ar bob lefel. Maent yn creu amgylchedd bywiog a heriol lle maent yn cymell a chyffroi dysgwyr i ymestyn eu medrau a'u perfformiad.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio adnoddau dysgu'n dda i ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio holi'n effeithiol i brocio dealltwriaeth dysgwyr o destunau, er enghraifft o ran datblygu meddwl beirniadol mewn perthynas â moeseg y cyfryngau.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn dda i gynllunio sesiynau. Caiff cyrsiau rhifedd defnyddiol 'maths matters' eu rhoi yn eu cyd-destun yn dda yn unol â diddordebau dysgwyr a meysydd galwedigaethol. Mae'r rhain yn helpu dysgwyr i fagu hyder mewn medrau rhifyddol sylfaenol, gan flaenoriaethu cyllidebau a defnyddio offer mesur.

Mae llawer o athrawon yn cyfeirio'n briodol at ethos a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio ffynonellau Cymraeg yn y celfyddydau perfformiadol lefel 2 i ddyfeisio perfformiad o amgylch chwedl Blodeuwedd. Mewn rhai dosbarthiadau, mae athrawon yn sgwrsio â dysgwyr yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o athrawon yn colli cyfleoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith yn glir ac yn cynnig cyngor gwerthfawr ar sut gall dysgwyr wella. Mae llawer o athrawon yn annog dysgwyr i arfarnu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Mae bron pob un o'r athrawon yn glir ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, ac maent yn ystyried y rhain wrth gynllunio addysgu. Mae bron pob un o'r athrawon yn sensitif i anghenion dysgwyr a allai fod â phroblemau iechyd meddwl. Mae staff yn rhoi sylw da i anghenion bugeiliol dysgwyr, gan eu cynorthwyo'n dda i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae strategaethau diweddar i wella cyfraddau cadw dysgwyr ar ystod o gyrsiau yn cael effaith gadarnhaol, ac o ganlyniad, mae llai o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau yn gynnar.

Mae pob un o'r athrawon yn gweithio mewn ffordd gynhwysol sy'n annog pob dysgwr i gymryd rhan yn dda a datblygu ymddiriedaeth yn ei gilydd ac mewn staff. Mae hyn yn helpu dysgwyr i fentro er mwyn ymestyn eu perfformiad a'u medrau creadigol.

Mae'r holl adeiladau'n cynnwys offer da ac mae rhai cyfleusterau'n cynnig offer o'r radd flaenaf. Mae cyfleusterau dawns yng Ngorseinon yn dda iawn a cheir cyfleusterau theatr da. Mae Llwyn y Bryn wedi'i drefnu'n dda ac mae'n darparu cyfleusterau ac ardaloedd gwaith da. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau TG a meddalwedd sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer amgylcheddau masnachol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth wael i ynysu rhag sain mewn rhai ystafelloedd cerdd yn golygu bod gormod o sŵn yn tarfu ar wersi eraill.